**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/03900/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

12 Rhagfyr 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd ynglŷn â *Deiseb P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant* oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod iechyd meddwl fel un o'i chwe blaenoriaeth genedlaethol yn *Ffyniant i Bawb* ac rwy'n llwyr gydnabod pwysigrwydd cefnogi llesiant emosiynol ein plant a'n pobl ifanc. Mae gan ysgolion swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni i sylwi ar broblemau yn gynnar a helpu i arfogi plant a phobl ifanc â ffyrdd o ddygymod â'r straen o dyfu i fyny.

Ym mis Medi 2017, lansiais i ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg brosiectau peilot mewn tair ardal i roi cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol mewn ysgolion a meithrin perthynas sy'n ymestyn o'r ystafell ddosbarth i'r gwasanaethau arbenigol hynny. Mae cynlluniau peilot mewngymorth CAMHS yn canolbwyntio'n benodol ar ymgynghori, meithrin cysylltiadau a sylwi ar y rheini sydd angen cymorth ac ymyrryd yn gynnar.

Gan adeiladu ar y gweithgarwch hwn ac yn sgil cyhoeddi'r adroddiad *Cadernid Meddwl* gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol: https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf, rydw i ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi bod yn meddwl beth arall allwn ni ei wneud i sicrhau bod pethau'n newid yn gyflymach yn y maes hwn, a defnyddio agwedd ysgol a system gyfan at iechyd a llesiant.  Wedi hyn, cyhoeddom ym mis Medi 2018 y byddem yn cynnull Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref, i'n cynghori ar sut i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gennyf i a'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac mae'n tynnu ynghyd y rheini sy'n gweithio mewn addysg ac iechyd ac yn y sector cyhoeddus yn ehangach a'r trydydd sector, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith y grŵp hwn yn cael ei wneud fel ymateb i *Cadernid Meddwl*, a bydd yr adroddiad hwnnw hefyd yn sylfaen iddo. Roedd yr adroddiad yn galw am nodi bod llesiant a chadernid emosiynol ac iechyd yn flaenoriaeth genedlaethol ac roedd yn cynnwys argymhellion ar sut y gellid datblygu hyn.

Bydd y grŵp newydd yn ymchwilio i sut y gellir dod â gwahanol weithgarwch sy'n cael ei wneud eisoes ynghyd, tynnu sylw at unrhyw fylchau mewn darpariaeth a sicrhau bod egni ac adnoddau yn cael eu targedu i gyflawni'r budd mwyaf posibl. Bydd yn edrych ar y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ac yn ystyried materion fel hyfforddiant i staff.

Bydd y grŵp yn cael cymorth grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau sydd â rhan wrth gyflawni dull ysgol gyfan yn cael eu cynnwys yn briodol yn y rhaglen. Elfen ganolog o hyn yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu eu sylwadau i helpu gyda'r gweithgaredd sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. I'r perwyl hwn, rydym yn recriwtio pobl ifanc ar hyn o bryd i ymuno â fforwm pobl ifanc, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar sut fydd orau i ddatblygu'r agenda hon.

Hyderaf fod hyn yn rhoi tawelwch meddwl ichi fod gwella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn dal yn flaenoriaeth a'n bod wedi sefydlu trefniadau newydd i gryfhau gwaith ar y cyd a sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n gyflymach.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services